



Prosiect Ein Tirlun Darluniadwy

Briff Artist Preswyl

Ionawr 2021 – Hydref 2021

Cefndir y Prosiect

Mae Ein Tirlun Darluniadwy yn Gynllun Partneriaeth Tirlun 5 Mlynedd gyda Chronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol sy'n canolbwyntio ar dirlun Dyffryn Dyfrdwy a Safle Treftadaeth y Byd Dyfrbont a Chamlas Pontcysyllte. Y thema ar gyfer y prosiect yw'r teithiau ysbrydoledig a fu, ac sy'n parhau i fod yn nodwedd o'r ardal y mae'r gamlas, ffordd A5 Telford a'r Afon Dyfrdwy yn torri drwyddi. Mae'r dyffryn hardd hwn wedi bod yn ysbrydoli ymwelwyr i greu celf a barddoniaeth ers y 18fed ganrif, ac mae'n parhau i ddenu twristiaid sy'n chwilio am y syfrdanol.

Mae hwn yn dirlun dan bwysau mawr, gyda nifer uchel o ymwelwyr yn cael eu denu i fannau sydd ymysg ein safleoedd mwyaf bregus. Mae'r cymunedau ar ei drothwy, a ddaeth i fodolaeth drwy'r ymdrechion diwydiannol a'i siapiodd, yn awr yn llai cysylltiedig â'r buddion sydd gan y tirlun i'w cynnig. Mae'r prosiect yn buddsoddi yng ngwydnwch safleoedd ymwelwyr allweddol ac yn gweithio i ennyn ymgysylltiad cymunedau yn eu gwerthfawrogiad a'i rheolaeth, gan ail-ddehongli'r dirwedd gyfoethog hon ar gyfer cenhedlaeth newydd.

Am ragor o wybodaeth am y prosiect Ein Tirlun Darluniadwy ewch i

<https://www.clwydianrangeanddeevalleyaonb.org.uk/projects/our-picturesque-landscape/>

Briff Artist Preswyl

Manylion y Preswyl

Bydd preswyladau'n digwydd yn ystod blwyddyn 3 o'n Prosiect Tirlun Darluniadwy, o Chwefror i Hydref 2021. Rydym yn dymuno ariannu hyd at bedwar o ymarferwyr neu dimau creadigol i gynhyrchu darn o waith o safon uchel mewn ymateb i dirlun Dyffryn Dyfrdwy a'r cymunedau sy'n byw yno. Mae ardal y prosiect yn ymestyn o Gorwen ar hyd Dyffryn Dyfrdwy i Gledrid ac yn croesi tair sir (Sir Ddinbych, Wrecsam a Sir Amwythig) a dwy wlad, ac mae'n cynnwys rhan o Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a Safle Treftadaeth y Byd UNESCO.

Rydym yn chwilio am artistiaid cyfoes creadigol ac ysbrydoledig sydd wedi'u cyffroi gan y cyfle i archwilio'r cysylltiadau rhwng pobl a lle, y gorffennol a'r presennol. Mae gennym ddi-ddordeb arbennig mewn clywed gan ymarferwyr amrywiaeth o ddisgyblaethau llenyddol neu'r gair llafar; gallai hyn gynnwys unrhyw beth o farddoniaeth i ryddiaith, ysgrifau teithio neu ddyddlyfr, recordiadau sain y gair llafar, cân, fideo neu'r cyfryngau digidol/podlediadau. Byddwn yn ystyried pob cais a dderbyniwn gan unigolion neu dimau creadigol lle mae cydweithrediad rhwng gwahanol gyfryngau artistig.

Bydd allbwn pob preswylid yn ddarn o waith y gellir ei rannu'n rhwydd gyda chynulleidfaoedd cyhoeddus, naill ai'n bersonol mewn arddangosfa neu yn y tirlun ei hun, neu'n ddigidol. Gellid hefyd defnyddio agweddau ar y gwaith a gynhyrchir yn nehongliad ehangach y prosiect a/neu mewn arddangosfeydd, gyda'r clod llawn yn cael ei roi i'r artistiaid. Disgwylir y bydd yr holl waith wedi'i gwblhau erbyn diwedd mis Hydref 2021.

Rydym yn disgwyl y bydd dau o'r preswylidau yn cael eu cwblhau yn bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg a'r ddau arall yn bennaf drwy gyfrwng y Saesneg, er y dylai pob cynnig ddangos empathi â'r Gymraeg a diwylliant Cymru. Nid yw'n hanfodol fod ymgeiswyr yn byw yng Nghymru neu'n lleol i ardal y prosiect, fodd bynnag bydd disgwyl i'r ymgeiswyr llwyddiannus fynychu ymweliadau safle gyda staff AHNE yn ystod mis cyntaf y preswylid.

Y gyllideb ar gyfer pob preswylid yw £3,000, fodd bynnag efallai y bydd yn bosibl cynyddu hyn pe bai potensial i ddatblygu syniadau ymhellach.

Thema'r Preswylid:

Mae thema'r prosiect Ein Tirlun Darluniadwy yn seiliedig ar harddwch Dyffryn Dyfrdwy a'i rym i ysbrydoli a chreu emosiynau yn y rhai sy'n ymweld â, ac yn byw yn yr ardal dros y canrifoedd. Er y gall artistiaid ddwyn ysbrydoliaeth o waith preswylwyr ac ymwelwyr nodedig â'r ardal o'r gorffennol (er enghraifft Merched Llangollen, yr awduron ysgrifau teithio George Borrow a'r Parch. William Gilpin, y bardd William Wordsworth a'r ysgrifwr William Hazlitt ymysg eraill) nod y preswylidau hyn fydd dod â'r cysylltiadau llenyddol hyn i mewn i'r presennol a phortreadu sut y mae'r tirlun yn dal i ysbrydoli pobl heddiw.

Mae hyn yn arbennig o berthnasol yng ngoleuni'r pandemig Covid-19, a byddai gennym ddi-ddordeb mewn clywed cynigion ar gyfer darnau a fydd yn nodi'r effaith y mae hyn wedi'i gael ar gymunedau a'r tirlun; archwilio'r cysylltiadau rhwng pobl a'u hamgylchedd lleol, a chofnodi sut y gallai'r ffordd y mae pobl yn

teimlo am eu hamgylchedd fod wedi newid yn ystod y cyfyngiadau Coronafeirws.

Rydym yn disgwyl y bydd y gwaith terfynol wedi'i ysbrydoli gan dirlun a chymunedau Dyffryn Dyfrdwy felly disgwylir y bydd artistiaid yn cynnwys ryw agwedd ar ymgysylltiad cymunedol yn eu gwaith. Gallai hyn gynnwys cyfweiliadau, gweithdai neu drafodaethau gyda phobl leol neu grwpiau cymunedol er mwyn hysbysu'r darnau a gynhyrchir, neu greu adnoddau hygyrch at ddefnydd cynulleidfaoedd cyhoeddus. Fodd bynnag rydym yn derbyn y bydd gweithio gyda'r gymuned yn anodd dan y cyfyngiadau lleol presennol felly byddem yn croesawu syniadau ar gyfer sut y gellid gwneud hyn yn ddiogel. Disgwylir y bydd unrhyw ymgysylltiad gydag aelodau'r gymuned yn cael ei gofnodi i ddibenion monitro a gwerthuso yn unol â gofynion GDPR a bydd tîm y prosiect yn cefnogi hyn.

Sut i wneud cais

I wneud cais cyflwynwch gynnig sy'n cynnwys:

- Datganiad ategol o ddim mwy na 750 gair yn amlinellu eich addasrwydd ar gyfer y rôl a'ch ymdriniaeth arfaethedig;
- Amserlen gyffredinol ar gyfer cwblhau'r prosiect;
- Cyllideb arfaethedig ar gyfer y gwaith;
- O leiaf dair enghraifft o'ch gwaith blaenorol;
- Manylion dau ganolwr y gallwn gysylltu â nhw.

Anfonwch eich cynigion at ein.tirlun.darluniadwy@sirddinbych.gov.uk erbyn y dyddiad cau, **dydd Mercher 20 Ionawr 2021 am 12 hanner dydd**.

Bydd y cyfweiliadau'n cael eu cynnal yn ystod yr wythnos yn dechrau 8 Chwefror 2021, gyda'r opsiwn o gyfweiliadau traddodiadol neu rithiol yn dibynnu ar arweiniad y llywodraeth ar y pryd.

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau am y prosiect hwn, cysylltwch â thîm Ein Tirlun Darluniadol:

E-bost: ein.tirlun.darluniadwy@sirddinbych.gov.uk

Rhif ffôn: Swyddfa: 01824 706163

Hannah Marubbi, Swyddog Ymgysylltu â'r Cyhoedd: 07785 701310

Kate Thomson, Swyddog Partneriaethau: 07979 704189

Nodwch: ni fydd y tîm ar gael rhwng dydd Mercher 23 Rhagfyr a dydd Llun 4 Ionawr 2021.